Tai Pawb Annual Conference

# THIS IS THE TIME

5th and 6th October 2021 | Online




Principal Sponsor

Tai Calon
Community Housing

tai pawb




# CROESO CYNNES!

## The warmest of welcome to Tai Pawb Conference 2021 - Wales' only equality and diversity in housing conference.

Whether you're joining us in a professional capacity, representing a community group or purely have an interest in equality, diversity and inclusion – we're thrilled to have you with us as a delegate.

Conference this year is set against a backdrop of a very difficult 18 months. We had made initial plans early in 2020 to host a face-to-face conference in May but, like many other events, it was put on hold as the seriousness of the global Covid-19 pandemic became apparent.

It is a period of time where the brightest of spotlights has been shone on inequality in Wales and across the world – much of which was pre-existing and now worsened. It is not right that  the colour of your skin, your employment, immigration status or your housing conditions might determine how you fair against a potentially fatal virus.

As we slowly emerge from the pandemic, conference is an opportune moment to step back, reflect and to pledge ourselves anew in our fight for social justice as we look to build back better. It recognises that **'This is the Time' // 'Nawr yw'r Amser'.** Whether it be race, sexuality and gender identity, refugees and asylum seekers, the climate emergency, diversity in the workplace and our communities or any number of equality and diversity issues – now is the time to act, to understand and to embed for the future.

**If not us, then who? And if not now, then when?** In Tai Pawb, we not only imagine a Wales where **everyone** has the right to a good home – we are determined to achieve this, with your help.

As ever, we will be hearing from a range of formidable and inspirational speakers across the two-days with their own personal stories to tell, including **Baroness Doreen Lawrence OBE** on anti-racism, **Francesca Martinez** on disability rights, **Leilani Farha** on right to adequate housing and **Lisa Power MBE** on LGBT+ rights.

We are confident that we've created a programme today that offers that all-important balance of challenge and food-for-thought, together with practical, solution-based approaches.

We are grateful to all of our speakers, members and sponsors once again this year for their continued support.

### We hope you enjoy the programme. Mwynhewch!

# INTRODUCING OUR PLENARY SPEAKERS



### FRANCESCA MARTINEZ
TUESDAY 5 OCTOBER

Francesca Martinez is an award winning comedian, actress, writer and campaigner. She has appeared on numerous TV shows and her most recent tour 'What The **** Is Normal?!' took in 140 dates around the world. She is an active campaigner who speaks about issues such as austerity, climate change and disability rights, her appearance on Question Time in 2019 where she highlighted the devastating impact of austerity on disabled people went viral. She has mild cerebral palsy but much prefers the word wobbly!



### BARONESS DOREEN LAWRENCE OBE
TUESDAY 5 OCTOBER

Baroness Lawrence of Clarendon OBE is one of the UK's most well-known anti-racism campaigners. After her son, Stephen, was tragically murdered in a racially motivated attack in 1993 she began campaigning to improve racial equality. Baroness Lawrence's campaigning led to a judicial inquiry which, in the Macpherson Report, found the Metropolitan Police to be institutionally racist - one of the primary causes of their failure to solve Stephen Lawrence's case. Baroness Lawrence founded the Stephen Lawrence Day Foundation which aims to inspire a more equal, inclusive society and provide opportunities for marginalised young people across the country. She is widely regarded as one of the most influential women in public life in the UK.

# INTRODUCING OUR PLENARY SPEAKERS




### LISA POWER MBE
DAY TWO

Lisa Power MBE is a sexual health and LGBTQ+ rights campaigner and LGBTQ+ history consultant. She is one of the co-founders of Pink Paper and Stonewall. Lisa was the first openly LGBTQ+ person to speak at the United Nations. Previously Policy Director of the Terrence Higgins Trust (for which she is still an advisor), Lisa also was a consultant in the creation of the Channel 4 series It's A Sin. She is also the author of 'No Bath But Plenty of Bubble: Stories from the London Gay Liberation Front'.



### LEILANI FARHA
DAY TWO

Leilani Farha is the former UN Special Rapporteur on adequate housing and Global Director of 'The Shift', an NGO committed to enshrining housing as a human right. The shift advocates for action to end homelessness, unaffordability, evictions and inadequate housing. Leilani has developed global human rights standards on the right to housing through her reports on homelessness, rights-based housing strategies and the first UN guidelines for the implementation of the right to housing.





# SUMMARY PROGRAMME: DAY ONE

**9:45 AM**
WELCOME TO CONFERENCE DAY ONE

**10:00 AM**
MINISTER FOR CLIMATE CHANGE
– JULIE JAMES MS

**10:20 AM**
MINISTER FOR SOCIAL JUSTICE
– JANE HUTT MS

**10:45 AM**
PLENARY BITESIZE: 'UNLOCKED LIVES'
– DISABLED PEOPLE'S EXPERIENCES
OF LOCKDOWN
RHIAN DAVIES, CEO – DISABILITY WALES

**11:00**
PLENARY SPEAKER
– FRANCESCA MARTINEZ

**12:00 PM**
LUNCH AND NETWORKING

**1:00 PM**
DEEDS NOT WORDS PANEL LAUNCH
– ALICJA ZALESINSKA

**1:45 PM**
PLENARY SPEAKER
– BARONESS DOREEN LAWRENCE OBE

**2:45 PM**
CLOSING REMARKS

tai pawb






# SUMMARY PROGRAMME: DAY TWO

**10:30 AM**
WELCOME TO DAY TWO

**10:35 AM**
PLENARY SPEAKER
- LISA POWER MBE

**11:15 AM**
LGBTQ+ PANEL SESSION:
'MORE THAN JUST RAINBOWS'

**12:05 PM**
*FRINGE SESSION - CHOICE OF 3*
- 'NATION OF SANCTUARY: A JOINED UP APPROACH'
- 'EARLY CONVERSATIONS: ENERGY EFFICIENCY AND TENANT ENGAGEMENT'
- DIVERSITY IN THE BOARDROOM

**1:00 PM**
LUNCH, NETWORKING AND TAI PAWB AGM

**1:45 PM**
PLENARY BITESIZE: REFLECTIONS OF AN
ASSESSOR - COMMON THEMES FROM QED

**2:00 PM**
PLENARY SPEAKER -LEILANI FARHA

**3:00 PM**
CLOSING REMARKS FOR DAY TWO

tai pawb

9:45 - 10:00

### PLENARY: WELCOME TO CONFERENCE DAY ONE

Alicja Zalesinska, Director and Craig Stephenson OBE, Chair of Tai Pawb

10:00 - 10:20

### PLENARY: ADDRESS TO CONFERENCE BY THE MINISTER FOR CLIMATE CHANGE

Julie James MS

10:20 - 10:45

### PLENARY: ADDRESS TO CONFERENCE BY THE MINISTER FOR SOCIAL JUSTICE

Jane Hutt MS

10:45 - 11:00

### PLENARY BITESIZE: 'UNLOCKED LIVES' – DISABLED PEOPLE'S EXPERIENCES OF LOCKDOWN

**Rhian Davies, CEO – Disability Wales**

The Covid pandemic has had an effect on all our lives, but for many disabled people it has been a time where they have felt forgotten and unheard. 'Unlocked Lives' is a project that has captured the highs and lows experienced by disabled people during the various lockdowns – Rhian looks at ways in which lessons can be learnt to create a stimulus for positive change in policymaking.

11:00 - 12:00

### PLENARY: FRANCESCA MARTINEZ ON DISABILITY RIGHTS

**Chaired by Rhian Davies**

Francesca is well-known not just on the comedy circuit but for her campaigning on disability rights. She brings her own life experiences to conference during this speaking slot, discussing the ways in which we can break down barriers for disabled people in a modern society.

*This is followed by Q&A with Francesca.*

12:00 - 1:00

### LUNCH & NETWORKING

# PROGRAMME: DAY ONE

## TUESDAY 5TH OCTOBER

1:00 - 1:45

### PLENARY: LAUNCH OF THE 'DEEDS NOT WORDS' PANEL

**Alicja Zalesinska and members of the Deeds Not Words panel**

In July 2020, Tai Pawb launched its 'Deeds Not Words' pledge, an ambitious and ground-breaking piece of work to embed anti-racism into all corners of the Welsh housing sector. As part of the pledge, we're excited to officially launch the Deeds Not Words panel of experts by experience who will support and challenge the sector to bring about positive and sustainable outcomes.

1:45 - 2:45

### PLENARY: BARONESS DOREEN LAWRENCE OBE ON ANTI-RACISM

**Chaired by Jerome Fanfare**

Continuing our afternoon theme on anti-racism during Black History Month, we are joined by Baroness Lawrence OBE, one of the UK's most well-known campaigners on race equality and social justice. The Baroness will reflect on her own experiences, the Black Lives Matter Movement and consider what progress has been made on anti-racism and achieving equality.

*This is followed by a Q&A with Baroness Lawrence.*

2:45 - 2:50

### CLOSING REMARKS FOR DAY ONE

Alicja Zalesinska and Craig Stephenson OBE

10:30 - 10:35

### PLENARY: WELCOME TO CONFERENCE DAY TWO

Ross Thomas, Policy & Public Affairs Manager and Craig Stephenson OBE, Chair - Tai Pawb

10:35 - 11:15

### PLENARY: LISA POWER MBE ON LGBT+ RIGHTS

**Chaired by Craig Stephenson OBE**

A co-founder of Stonewall, Lisa Power knows a thing or two about hard-fought, hard-won rights. She will explore the recent history of LGBT+ rights, reflect on Welsh Government's draft Action Plan and what more we can do to become an inclusive, tolerant Wales.

*This is followed by Q&A with Lisa.*

11:15 - 12:00

### PLENARY: LGBT+ PANEL SESSION – 'MORE THAN JUST RAINBOWS'

**Chaired by Craig Stephenson OBE**

Conference will be joined by a panel of experts by experience to discuss and explore current and longstanding issues faced by LGBT+ people in housing matters as well as more widely in society

### 12:00 - 12:05: COMFORT BREAK

12:05 - 1:00

### FRINGE SESSIONS CHOOSE ONE OF THREE

*At this point, delegates are invited to join one of three fringe sessions:*

**'Nation of Sanctuary: a joined up approach':** Tai Pawb has teamed up with Oasis and other partners to draw down Comic Relief Funding and help break the cycle of 'accommodation crisis' often faced by newly-granted refugees. This session will hear from those with lived experience and how the funding will look to increase the provision of 'move on' accommodation in Wales. **Hosted by Rob Milligan, Tai Pawb and Richard Eynon, Oasis**

**'Early conversations: energy efficiency and tenant engagement':** Wales has ambitious targets to be net-zero in carbon emissions by 2030 together with a landmark retro-fit programme in support of energy efficiency. Social housing has a significant role to play – providing homes for more than 200,000 people in Wales. This session considers the equality impact of climate change, ensuring tenants are front and centre of the journey. **Hosted by Aneaka Kellay, Carbon Co-op and Victoria Slade, CEO of Cynon Taf Community Housing Group**

**Diversity in the Boardroom:** it's well recognised that diversity of experience and backgrounds leads to better strategy decision-making. Yet progress on diversity in board rooms is still slow – and people from ethnic minorities continue to be under-represented.

# PROGRAMME: DAY TWO

## WEDNESDAY 6TH OCTOBER

This session explores the creation of a Board Traineeship scheme by a group of South Wales based RSLs to build a pipeline of diverse talent and develop board members of the future. **Hosted by Helen White, CEO of Taff Housing**

1:00 - 1:45

### LUNCH/NETWORKING AND TAI PAWB AGM

**During the lunch break, Tai Pawb will host its Annual General Meeting 2021**

1:45 - 2:00

### PLENARY BITESIZE: REFLECTIONS OF AN ASSESSOR - COMMON THEMES FROM QED

**Ceri Meloy, Tai Pawb**

Tai Pawb has been proud to run its QED Award (Quality in Equality and Diversity) since 2017 – during that time, five housing associations in Wales have received accreditation. This bitesize session will reflect on common themes that have and continue to emerge as organisations look to understand the five QED strands – governance, services, access, involvement and culture - through an equality lens.

2:00 - 3:00

### PLENARY: LEILANI FARHA ON THE RIGHT TO HOUSING - 'TIME TO MAKE THE SHIFT'

**Chaired by Lindsay Cordery-Bruce**

Enshrining the 'right to adequate housing' in Welsh law is a primary goal for Tai Pawb and its partners, Shelter Cymru and CIH Cymru. In her former role as UN Special Rapporteur on the right to housing, Leilani Farha undertook extensive investigations and issued dozens of reports on homelessness and rights-based housing strategies as part of her mandate in promoting standards. She will discuss where we currently stand globally and reflect on how we achieve a legislative right in Wales. *This is followed by Q&A with Leilani.*

2:45 - 2:50

### CLOSING REMARKS FOR DAY ONE

Alicja Zalesinska and Craig Stephenson OBE

# WITH THANKS TO OUR SPONSORS AND FUNDERS

Tai Calon
Community Housing

united welsh

Cynon Taf
Community Housing Group
Grŵp Cartrefi Cymunedol

COMIC RELIEF

OAK FOUNDATION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Company limited by guarantee | 5282554

Registered charity | 1110078


tai pawb


02921 057 957 www.taipawb.org

@taipawb @taipawb Tai Pawb


Cynhadledd Flynyddol Tai Pawb 2021

# NAWR YW'R AMSER

Hydref 5 a 6 | Ar-lein




Prif Noddwr

Tai Calon
Community Housing

tai pawb




# CROESO CYNNES!

## Croeso cynnes i Gynhadledd Tai Pawb 2021 – yr unig gynhadledd cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai yng Nghymru.

P'un ai a ydych chi'n ymuno â ni yn eich rôl broffesiynol, yn cynrychioli grŵp cymunedol neu'n ymddiddori'n llwyr mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – rydyn ni'n falch iawn o'ch cael chi gyda ni fel cynrychiolydd.

Mae'r gynhadledd eleni yn cael ei chynnal yn dilyn deunaw mis anodd iawn. Roedden ni wedi gwneud cynlluniau cychwynnol yn fuan yn 2020 i gynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ym mis Mai ond, fel llawer o ddigwyddiadau eraill, cafodd ei gohirio wrth i ddifrifoldeb y pandemig Coronafeirws byd-eang ddod yn amlwg.

Mae'n gyfnod lle mae'r sylw pennaf ar anghydraddoldeb yng Nghymru a ledled y byd – llawer ohono'n bodoli'n barod, ac wedi gwaethygu erbyn hyn. Nid yw'n sefyllfa deg lle gallai lliw eich croen, eich cyflogaeth, eich statws mewnfudo neu amodau eich cartref bennu sut yr ydych yn ymdopi wrth frwydro yn erbyn firws a allai fod yn angheuol.

Wrth i ni ddod allan yn araf o'r pandemig, mae'r gynhadledd yn gyfle delfrydol i gamu'n ôl, myfyrio ac ymrwymo i'n haddewidion unwaith yn rhagor i frwydro dros gyfiawnder cymdeithasol wrth i ni geisio adeiladu'n ôl yn well. Mae'n cydnabod mai **'This is the Time' // 'Nawr yw'r Amser'.** Boed hynny'n hil, rhywioldeb a hunaniaeth o ran rhywedd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yr argyfwng hinsawdd, amrywiaeth yn y gweithle ac yn ein cymunedau, neu unrhyw nifer o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth – nawr yw'r amser i weithredu, i ddeall ac i ymwreiddio ar gyfer y dyfodol.

**Os na wnawn ni, pwy wnaiff? Ac os nad nawr, yna pryd?** Yn Tai Pawb, rydyn ni nid yn unig yn dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da – rydyn ni'n benderfynol o gyflawni hyn, gyda'ch help chi.

Fel bob amser, byddwn yn clywed gan amrywiaeth o siaradwyr anhygoel ac ysbrydoledig dros y deuddydd. Bydd ganddyn nhw eu straeon personol eu hunain i'w hadrodd, gan gynnwys y **Farwnes Doreen Lawrence OBE** yn trafod gwrth-hiliaeth, **Francesca Martinez** yn trafod hawliau anabledd, **Leileni Farha** yn trafod yr hawl i dai digonol a **Lisa Power MBE** yn trafod Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

Rydyn ni'n hyderus ein bod heddiw wedi creu rhaglen sy'n cynnig y cydbwysedd hollbwysig hwnnw o her a rhywbeth i gnoi cil arno, ynghyd â dulliau ymarferol sy'n seiliedig ar atebion.

Rydyn ni'n ddiolchgar i'n holl siaradwyr, aelodau a noddwyr unwaith eto eleni am eu cefnogaeth barhaus.

## Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r prynhawn. Mwynhewch!

# CYFLWYNO EIN SIARADWYR GWADD



## FRANCESCA MARTINEZ

DYDD MAWRTH 5 HYDREF

Mae Francesca Martinez yn gomedïwr, actores, ysgrifenwraig ac ymgyrchydd. Mae wedi ymddangos ar nifer fawr o raglenni teledu, ac ymddangosodd ei sioe deithiol ddiweddaraf 'What The **** Is Normal?!' ar 140 o ddyddiadau ym mhedwar ban byd. Mae hi'n ymgyrchydd gweithgar sy'n siarad am faterion fel cyni, newid hinsawdd a hawliau anabledd, ac aeth ei hymddangosiad ar Question Time yn 2019 yn feirol pan dynnodd sylw at yr effaith ddinistriol y mae cyni'n ei gael ar bobl anabl. Mae ganddi ffurf ysgafn ar barlys yr ymennydd, ond mae'n well ganddi'r gair 'wobli'!



## Y FARWNES DOREEN LAWRENCE OBE

DYDD MAWRTH 5 HYDREF

Y Farwnes Lawrence o Clarendon OBE yw un o ymgyrchwyr gwrth-hiliaeth fwyaf adnabyddus y Deyrnas Unedig. Ar ôl llofruddiaeth dorcalonnus ei mab, Stephen, mewn ymosodiad hiliol yn 1993, aeth ati i ymgyrchu i wella cydraddoldeb hiliol. Arweiniodd ymgyrchu'r Farwnes Lawrence at ymchwiliad barnwrol a ganfu, yn Adroddiad Macpherson, bod yr Heddlu Metropolitan yn sefydliadol hiliol – un o brif achosion eu methiant i ddatrys achos Stephen Lawrence. Sefydlodd y Farwnes Lawrence y Stephen Lawrence Day Foundation sydd â'r nod o ysbrydoli cymdeithas fwy cydradd a chynhwysol a rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ar gyrion cymdeithas o bob rhan o'r wlad. Caiff ei hystyried yn eang fel un o'r menywod mwyaf dylanwadol ym myd bywyd cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

# CYFLWYNO EIN SIARADWYR GWADD




## LISA POWER MBE

DYDD MERCHER 6 HYDREF

Mae Lisa Power MBE yn ymgyrchydd iechyd rhywiol a hawliau LHDTQ+ ac yn ymgynghorydd hanes LHDTQ+. Hi yw un o gyd-sylfaenwyr Pink Paper a Stonewall. Lisa oedd yr unigolyn LHDTQ+ agored cyntaf i siarad yn y Cenhedloedd Unedig. Bu'n Gyfarwyddwr Polisi yn y Terrence Higgins Trust gynt (ac mae'n parhau i fod yn gynghorydd i'r ymddiriedolaeth), bu Lisa hefyd yn ymgynghorydd yn y gwaith o greu'r gyfres It's A Sin ar Channel 4. Hi hefyd yw awdur 'No Bath But Plenty of Bubble: Stories from the London Gay Liberation Front'.



## LEILANI FARHA

DYDD MERCHER 6 HYDREF

Leilani Farha yw cyn-Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar dai digonol a Chyfarwyddwr Byd-eang 'The Shift', corff anllywodraethol sy'n ymrwymedig i ymgorffori tai fel hawl ddynol. Mae The Shift yn eirioli dros weithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd, anfforddiadwyedd, troi allan a thai annigonol. Mae Leilani wedi datblygu safonau hawliau dynol byd-eang ar yr hawl i dai drwy ei hadroddiadau ar ddigartrefedd, strategaethau tai wedi'u seilio ar hawliau a chanllawiau cyntaf y Cenhedloedd Unedig ar roi'r hawl i dai ar waith.





# RHAGLEN GRYNO: DIWRNOD UN

**9:45 AM**
CROESO I DDIWRNOD CYNTAF Y GYNHADLEDD

**10:00 AM**
GWEINIDOG NEWID HINSAWDD - JULIE JAMES AS

**10:20 AM**
GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL – JANE HUTT MS

**10:45 AM**
SESIWN LAWN GRYNO: 'DATGLOI BYWYDAU' – PROFIADAU POBL ANABL O'R CYFNOD CLO . RHIAN DAVIES, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL – ANABLEDD CYMRU

11:00
SESIWN LAWN – FRANCESCA MARTINEZ

**12:00 PM**
CINIO A RHWYDWEITHIO

**1:00 PM**
SESIWN LAWN: LANSIO PANEL 'GWEITHREDU, NID GEIRIAU' – ALICJA ZALESINSKA

**1:45 PM**
SESIWN LAWN: FARWNES DOREEN LAWRENCE OBE

**2:45 PM**
SYLWADAU I GLOI DIWRNOD UN

tai pawb






# RHAGLEN GRYNO: DIWRNOD DAU

**10:30 AM**
CROESO I AIL DDIWRNOD

**10:35 AM**
SESIWN LAWN: LISA POWER MBE

**11:15 AM**
SESIWN PANEL LHDT+ – 'MWY NAG ENFYS'

**12:05 PM**
*SESIYNAU YMYLOL: DEWISWCH UN O DAIR SESIWN:*
- 'CENEDL NODDFA: DULL CYDLYNOL'
- 'SGYRSIAU CYNNAR: EFFEITHLONRWYDD YNNI AC YMGYSYLLTU Â THENANTIAID'
- AMRYWIAETH YN YSTAFELL Y BWRDD

**1:00 PM**
CINIO/RHWYDWEITHIO A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL TAI PAWB

**1:45 PM**
SESIWN LAWN GRYNO: MYFYRDODAU ASESWR – THEMÂU CYFFREDIN O'R QED

**2:00 PM**
SESIWN LAWN: LEILANI FARHA

**3:00 PM**
SYLWADAU I GLOI DIWRNOD DAU

tai pawb

# RHAGLEN DIWRNOD CYNTAF

DYDD MAWRTH 5 HYDREF

## 9:45 - 10:00
## SESIWN LAWN: CROESO I DDIWRNOD CYNTAF Y GYNHADLEDD

Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr a Craig Stephenson OBE, Cadeirydd Tai Pawb

## 10:00 - 10:20
## SESIWN LAWN: ANERCHIAD I'R GYNHADLEDD GAN Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

Julie James MS

## 10:20 - 10:45
## SESIWN LAWN: ANERCHIAD I'R GYNHADLEDD GAN Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Jane Hutt MS

## 10:45 - 11:00
## SESIWN LAWN GRYNO: 'DATGLOI BYWYDAU' – PROFIADAU POBL ANABL O'R CYFNOD CLO

Rhian Davies, Prif Swyddog Gweithredol – Anabledd Cymru

Mae'r pandemig Covid wedi effeithio ar ein bywydau ni i gyd, ond i lawer o bobl anabl, mae wedi bod yn gyfnod o deimlo eu bod yn angof ac yn anhysbys. Prosiect yw 'Datgloi Bywydau' sydd wedi casglu ynghyd uchafbwyntiau ac isafbwyntiau profiadau pobl anabl yn ystod yr amrywiol gyfnodau o gyfyngiadau symud – mae Rhian yn edrych ar ffyrdd y gellir dysgu gwersi a chreu symbyliad ar gyfer newid cadarnhaol mewn llunio polisïau.

## 11:00 - 12:00
## SESIWN LAWN: FRANCESCA MARTINEZ YN TRAFOD HAWLIAU ANABLEDD

Cadeirydd: Rhian Davies

Mae Francesca yn adnabyddus, nid yn unig yn y byd comedi, ond am ei gwaith ymgyrchu ar hawliau anabledd. Daw â'i phrofiadau bywyd ei hun i'r gynhadledd yn ystod ei sgwrs, gan drafod ffyrdd y gallwn fynd ati i chwalu rhwystrau i bobl anabl mewn cymdeithas fodern. ***Bydd sesiwn holi ac ateb gyda Francesca i ddilyn y sgwrs.***

## 12:00 - 1:00
## CINIO A RHWYDWEITHIO

## 1:00 - 1:45
## SESIWN LAWN: LANSIO PANEL 'GWEITHREDU, NID GEIRIAU'

Alicja Zalesinska ac aelodau o banel Gweithredu, nid Geiriau

Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd Tai Pawb ei adduned 'Gweithredu, nid Geiriau', darn o waith uchelgeisiol ac arloesol i wreiddio gwrth-hiliaeth ym mhob cornel o'r sector tai yng Nghymru. Fel rhan o'r adduned, cyffrous yw lansio panel arbenigwyr Gweithredu, nid Geiriau yn swyddogol; dyma banel o arbenigwyr trwy brofiad a fydd yn cefnogi ac yn herio'r sector i greu deilliannau cadarnhaol a chynaliadwy.

## 1:45 - 2:45
## SESIWN LAWN: Y FARWNES DOREEN LAWRENCE OBE YN TRAFOD GWRTH-HILIAETH

Cadeirydd: Jerome Fanfare

Gan barhau ar thema'r prynhawn o wrth-hiliaeth yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon, mae'r Farwnes Lawrence OBE, un o ymgyrchwyr mwyaf adnabyddus y Deyrnas Unedig ar gydraddoldeb hiliol a chyfiawnder cymdeithasol, yn ymuno â ni. Bydd y Farwnes yn myfyrio ar ei phrofiadau hi ei hun, y mudiad Mae Bywydau Duon o Bwys a bydd yn ystyried pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwrth-hiliaeth a chyflawni cydraddoldeb. ***Bydd sesiwn holi ac ateb gyda'r Farwnes Lawrence i ddilyn y sgwrs.***

## 2:45 - 2:50
## SYLWADAU I GLOI DIWRNOD UN

Alicja Zalesinska a Craig Stephenson OBE

# RHAGLEN YR AIL DDIWRNOD

DYDD MERCHER 6 HYDREF

## 10:30 - 10:35: SESIWN LAWN: CROESO I AIL DDIWRNOD Y GYNHADLEDD

Ross Thomas, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, a Craig Stephenson OBE, Cadeirydd – Tai Pawb

## 10:35 - 11:15: SESIWN LAWN: LISA POWER MBE YN TRAFOD HAWLIAU LHDT+

Cadeirydd: Craig Stephenson OBE

Fel un o gyd-sefydlwyr Stonewall, mae Lisa Power yn gwybod ambell beth am hawliau y bu'n rhaid ymladd yn galed i'w hennill. Bydd yn archwilio hanes diweddar hawliau LHDT+, yn myfyrio ar Gynllun Gweithredu drafft Llywodraeth Cymru a beth arall y gallwn ei wneud i fod yn Gymru fwy cynhwysol a goddefgar.
**Bydd sesiwn holi ac ateb gyda Lisa i ddilyn y sgwrs.**

## 11:15 - 12:00: SESIWN LAWN: SESIWN PANEL LHDT+ – 'MWY NAG ENFYS'

Cadeirydd: Craig Stephenson OBE

Bydd panel o arbenigwyr trwy brofiad yn ymuno â'r gynhadledd i drafod ac archwilio materion cyfredol a hirsefydlog a wynebir gan bobl LHDT+ mewn materion tai ynghyd ag yn ein cymdeithas ehangach.

## 12:00 - 12:05: EGWYL

## 12:05 - 1:00: SESIYNAU YMYLOL: DEWISWCH UN O DAIR SESIWN

*Gwahoddir mynychwyr i ymuno ag un o dair sesiwn ymylol ar gyfer y rhan hon o'r gynhadledd:*

**'Cenedl Noddfa: dull cydlynol':** Mae Tai Pawb wedi ymuno ag Oasis a phartneriaid eraill i sicrhau cyllid gan Comic Relief a helpu i dorri'r cylch o 'argyfwng llety' a wynebir yn aml gan ffoaduriaid sydd newydd gael eu statws. Bydd y sesiwn hon yn clywed gan y rhai gyda phrofiad bywyd a sut bydd y cyllid hwn yn ceisio cynyddu darpariaeth llety 'symud ymlaen' yng Nghymru. **Cynhelir gan Rob Milligan, Tai Pawb a Richard Eynon, Oasis**

**'Sgyrsiau cynnar: effeithlonrwydd ynni ac ymgysylltu â thenantiaid':** Mae gan Gymru dargedau uchelgeisiol i gyrraedd sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2030 ynghyd â rhaglen ôl-osod arloesol i gefnogi effeithlonrwydd ynni. Mae gan dai cymdeithasol rôl sylweddol i'w chwarae – mae'n darparu cartrefi i fwy na 200,000 o bobl yng Nghymru. Bydd y sesiwn hon yn edrych. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar effaith y newid yn yr hinsawdd ar gydraddoldeb a sicrhau mai tenantiaid sydd wrth galon y siwrne hon. **Cynhelir gan Aneaka Kellay, Carbon Co-op a Victoria Slade, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf**

**Amrywiaeth yn Ystafell y Bwrdd:** mae'n gydnabyddus fod amrywiaeth mewn profiad a chefndir yn arwain at benderfyniadau strategaeth gwell. Eto i gyd, mae'r cynnydd ar amrywiaeth mewn ystafelloedd bwrdd yn dal i fod yn araf – ac mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli. Mae'r sesiwn hon yn archwilio creu cynllun Hyfforddeiaeth Bwrdd gan grŵp o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Ne Cymru i ddatblygu cronfa o dalent amrywiol a meithrin aelodau bwrdd y dyfodol. **Cynhelir gan Helen White, Prif Swyddog Gweithredol Tai Taf**

## 1:00 - 1:45: CINIO/RHWYDWEITHIO A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL TAI PAWB

Bydd Tai Pawb yn cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021 yn ystod yr egwyl cinio

## 1:45 - 2:00
## SESIWN LAWN GRYNO: MYFYRDODAU ASESWR – THEMÂU CYFFREDIN O'R QED

Ceri Meloy, Tai Pawb

Mae Tai Pawb wedi bod yn falch o gynnal ei Ddyfarniad QED ('Quality in Equality and Diversity') ers 2017 – yn ystod y cyfnod hwn, mae pum cymdeithas tai yng Nghymru wedi sicrhau achrediad. Bydd y sesiwn gryno hon yn myfyrio ar y themâu cyffredin sydd wedi dod i'r amlwg ac sy'n parhau i ymddangos wrth i sefydliadau weithio tuag at ddeall pum cainc y QED – llywodraethu, gwasanaethau, ymgysylltu, diwylliant a mynediad – drwy lens cydraddoldeb.

## 2:00 - 3:00: SESIWN LAWN: LEILANI FARHA YN TRAFOD YR HAWL I DAI – 'MAE'N BRYD I'R NEWID DDIGWYDD'

Cadeirydd: Lindsay Cordery-Bruce

Mae corffori'r 'hawl i dai digonol' yng nghyfraith Cymru yn un o brif nodau Tai Pawb, a'i bartneriaid Shelter Cymru a CIH Cymru. Yn ei rôl flaenorol fel Rapporteur Arbennig i'r Cenhedloedd Unedig ar yr hawl i dai, ymgymerodd Leilani Farha ag ymchwiliadau eang ac fe gyhoeddodd ddwsinau o adroddiadau ar ddigartrefedd a strategaethau tai wedi'u seilio ar hawliau fel rhan o'i mandad i hybu safonau. Bydd yn trafod lle'r ydym arni ar hyn o bryd ar lefel fyd-eang, ac yn myfyrio ar sut gallwn gyflawni hawl ddeddfwriaethol yng Nghymru.
**Bydd sesiwn holi ac ateb gyda Leilani i ddilyn y sgwrs.**

## 2:45 - 2:50
## SYLWADAU I GLOI DIWRNOD DAU

Alicja Zalesinska a Craig Stephenson OBE

# GYDA DIOLCH I'N NODDWYR A'N HARIANWYR

Tai Calon Community Housing

united welsh

Cynon Taf Community Housing Group
Grŵp Cartrefi Cymunedol

COMIC RELIEF

OAK FOUNDATION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmni cyfyngedig trwy warant | 5282554

Elusen gofrestredi | 1110078

tai pawb

02921 057 957 www.taipawb.org

@taipawb @taipawb Tai Pawb